OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1301 (Cy. 255)

# NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Rhagfyr 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Rhagfyr 2018* |

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad yn unol ag adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**).

Cyn i'r drafft gael ei osod, cafodd Gweinidogion Cymru gyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ac fe wnaethant ystyried y cyngor a gafwyd, yn unol ag adran 49(1) o'r Ddeddf.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 33(2) a (3) a 36(1), (2) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cofrestrfa'r DU" ("*the UK registry*") yw'r gofrestrfa a sefydlwyd ar gyfer y Deyrnas Unedig yn unol â'r Rheoliad Cofrestrfeydd;

ystyr "Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd" ("*the UNFCCC*") yw'r Confensiwn a lofnodwyd yn Efrog Newydd ar 9 Mai 1992;

mae i "cyfrif credyd Cymru" ("*the Welsh credit account*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(1);

mae i "gweinyddwr y gofrestrfa" yr ystyr a roddir i "the registry administrator" yn rheoliad 8(1) o Reoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012(**2**);

ystyr "Protocol Kyoto" ("*Kyoto Protocol*") yw Protocol Kyoto Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a lofnodwyd yn Kyoto ar 11 Rhagfyr 1997;

ystyr "y Rheoliad Cofrestrfeydd" ("*the Registries Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 389/2013 sy'n sefydlu Cofrestrfa yr Undeb yn unol â Chyfarwyddeb 2003/87/EC Senedd

(**1**) 2016 dccc 3.
(**2**) O.S. 2012/3038.

Ewrop a'r Cyngor, Penderfyniadau Rhif 280/2004/EC a Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a diddymu Rheoliadau'r Comisiwn (EU) Rhif 920/2010 a Rhif 1193/2011(**3**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "dileu" uned garbon yw dileu'n wirfoddol yn unol â'r Rheoliad Cofrestrfeydd, a chaiff uned ei "dileu" os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i weinyddwr y gofrestrfa ei throsglwyddo i'r cyfrif o'r enw'r "Cyfrif Dileu Gwirfoddol" yng nghofrestrfa'r DU.

### Unedau carbon

**3.**—(1) At ddibenion Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gostyngiadau allyriadau ardystiedig yn unedau carbon.

(2) Mae i bob uned garbon swm cyfwerth ag 1 dunnell o garbon deuocsid.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gostyngiad allyriad ardystiedig" yw uned a ddyroddwyd o dan Erthygl 12 o Brotocol Kyoto a'r penderfyniadau a fabwysiadwyd o dan Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd neu Brotocol Kyoto.

### Cyfrif credyd Cymru

**4.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i weinyddwr y gofrestrfa agor cyfrif ("cyfrif credyd Cymru") yng nghofrestrfa'r DU at y diben o ddal unedau carbon sydd i'w credydu i gyfrif allyriadau net Cymru yn unol â rheoliad 5.

(2) Rhaid defnyddio cyfrif credyd Cymru i ddal uned garbon sydd i'w chredydu i Gyfrif Allyriadau Net Cymru.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), ni chaniateir trosglwyddo unedau carbon sydd yng nghyfrif credyd Cymru allan o'r cyfrif hwnnw ac eithrio at ddibenion dileu.

(4) Caiff gweinyddwr y Gofrestrfa drosglwyddo uned o garbon allan o gyfrif credyd Cymru at ddibenion ac eithrio dileu os yw wedi ei fodloni—

(i) nad oes datganiad o dan reoliad 5(2) wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r uned garbon honno; a

(ii) y cafodd yr uned garbon ei throsglwyddo i gyfrif credyd Cymru mewn camgymeriad.

(5) Mae unrhyw uned garbon a drosglwyddwyd allan o gyfrif credyd Cymru yn unol â pharagraff (4) i'w dychwelyd i'r cyfrif y cafodd ei throsglwyddo ohono yn wreiddiol.

### Pŵer i gredydu unedau carbon i gyfrif allyriadau net Cymru

**5.**—(1) Caniateir credydu unedau carbon i gyfrif allyriadau net Cymru yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Caiff uned garbon ei chredydu i gyfrif allyriadau net Cymru—

(a) os yw yng nghyfrif credyd Cymru;

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn datgan bod yr uned garbon wedi ei chredydu i gyfrif allyriadau net Cymru; ac

(c) os, yn dilyn datganiad Gweinidog Cymru, y caiff yr uned garbon ei dileu.

(3) Mewn perthynas â datganiad o dan baragraff (2)—

(a) rhaid iddo ddatgan y flwyddyn y mae'r uned garbon i'w chredydu mewn cysylltiad â hi; a

(b) caniateir ei wneud yn y fath fodd ac ar y cyfryw adeg y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(**3**) O.J. Rhif L 122, 3.5.13, t. 1.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad o dan baragraff (2) os ydynt yn credu'n rhesymol bod yr uned garbon wedi ei defnyddio i osod yn erbyn allyriadau nwyon tŷ gwydr nad ydynt yn allyriadau Cymru.

**Cofrestr o drafodiadau**

**6.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am yr unedau carbon i'w credydu i gyfrif allyriadau net Cymru o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mewn perthynas ag unedau carbon a gredydir o dan reoliad 5(2), rhaid i'r gofrestr gynnwys y manylion a ganlyn—

(a) y dyddiad dileu;

(b) y dyddiad trosglwyddo i gyfrif credyd Cymru;

(c) dyddiad unrhyw ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 5(2);

(d) y flwyddyn y mae'r unedau i'w credydu ynddi;

(e) swm yr unedau a gredydir.

**Dirprwyo swyddogaethau**

**7.** Caiff Gweinidogion Cymru ddirprwyo i berson y gwaith o gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir iddynt neu a osodir arnynt gan y Rheoliadau hyn.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

5 Rhagfyr 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifyddu carbon ac unedau carbon at ddibenion cyfrifo cyfrif allyriadau net Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Diben Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na gwaelodlin 1990. Mae adran 33 yn darparu mai cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr, minws unrhyw unedau carbon a gredydir i'r cyfrif a phlws unrhyw unedau carbon a ddidynnir o'r cyfrif yn ystod y cyfnod.

Mae rheoliad 3 yn diffinio pa unedau carbon y caiff eu cynnwys yng nghyfrif allyriadau net Cymru.

Mae rheoliad 4 yn galluogi Gweinidogion Cymru i agor "cyfrif credyd Cymru" ac yn darparu bod rhaid i unrhyw uned garbon sydd i'w chredydu i gyfrif allyriadau net Cymru gael ei chadw yn y cyfrif hwnnw. Ar ôl i uned garbon gael ei lleoli yng nghyfrif credyd Cymru, ni ellir ond ei thynnu allan eto er mwyn ei dileu, oni bai bod gweinyddwr y gofrestrfa wedi ei fodloni bod amodau penodol wedi eu diwallu.

Mae rheoliad 5 yn amlinellu'r ffordd y caniateir credydu unedau carbon i gyfrif allyriadau net Cymru. Rhaid eu cadw yng nghyfrif credyd Cymru a rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan eu bod wedi eu credydu yn unol â rheoliad 5. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol trosglwyddo i'r "Cyfrif Dileu Gwirfoddol".

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr sy'n cynnwys manylion yr unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru ac a ddidynnir ohono ynghyd â manylion yr unedau carbon sydd wedi eu dileu yn unol â rheoliad 4.

Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, cyn gosod rheoliadau drafft.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.